Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 468 MEDI/HYDREF 2024 | AM DDIM

## GWARIO £18 MILIWN I WELLA ADEILADAU YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Mae mwy na £18m wedii glustnodi ar gyfer buddsoddiad yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i ailwampio rhan o'r adeiladau presennol, adeiladu bloc addysgu newydd ar gyfer y chweched dosbarth ynghyd a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i greu cyfleusterau chwaraeon newydd gan gynnwys cyfleuster pob tywydd.

Yr adeilad newydd hefyd fydd yr adeilad gweithredu di-garbon net cyntaf ar gyfer Abertawe a bydd newid sylweddol i'r trefniadau traffig a fydd yn gwella'r ddarpariaeth barcio bresennol.

Mae'n rhan o'r rhaglen fuddsoddi fwyaf erioed ar gyfer ysgolion newydd a gwell yn Abertawe, gwerth £520m a ariennir ar y cyd gan Gyngor Abertawe a Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y degawd diwethaf, gwariwyd dros £ 100m ar adeiladu saith ysgol newydd a saith gwaith uwchraddio mawr arall, gyda gwerth mwy na £400m o welliannau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Bydd y buddsoddiad ym Mryn Tawe nid yn unig yn gwella cyfleusterau dysgu, ond bydd hefyd yn cynyddu capasiti yn yr ysgol ac yn helpu i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe.







Gydag Ysgol Gyfun Gŵyr yn dathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu a'i hagor yn 1984, ewch ar daith i'r gorffennol a 'Nôl i'r 80au'. Cewch brofi sioe gerdd llawn goleuadau neon, caneuon eiconig poblogaidd yr oes a drama am fywyd ieuenctid y cyfnod! Profwch hud yr 1980au gyda pherfformiad a fydd yn sicrhau eich bod yn dawnsio yn eich sedd. Dewch gyda ni Nôl i'r wythdegau!!

Tocynnau ar gael o Swyddfa Docynnau Canolfan y Celfyddydau Taliesin trwy 01792 602060 neu ar-lein drwy www.taliesinartscentre.co.uk



# ADUNIAD AELWYD TREFORYS
## -DAVID GWYN JOHN

Yn 1945 fe ddaeth y Parchg. Trebor Lloyd Evans i weinidogaethu yng Nghapel y Tabernacl, Treforys. Sefydlodd Aelwyd o'r Urdd ac arweiniodd ymgyrch i sefydlu Ysgol Gymraeg i wasanaethu'r ardal. Yn 1949 agorwyd Ysgol Gymraeg Lôn Las. Wrth i ddisgyblion cynnar Lon las symud ymlaen at addysg uwchradd yn Abertawe, ymunodd nifer ohonynt â'r Aelwyd, gan ddod â ffrindiau, nad oeddynt erioed wedi profi awyrgylch Cymreig yn eu bywydau, i ymuno yng weithgareddau'r Aelwyd. Datblygodd yr Aelwyd dan hyfforddiant Joyce Hughes, Sylvia Rees, a Margaret Dallimore i fod yn llwyddiannus mewn Eisteddfodau lleol a Chenedlaethol, gyda Chôr Merched, Parti Meibion a Chôr Cymysg. Erbyn 1964, a'r Aelwyd dan ofal David Gwyn a Pamela John ffurfiwyd Parti Noson Lawen i gystadlu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd a pherfformio ar draws y De. Yn 1968 wrth baratoi at daith i gynnal cyngherddau yn yr Alban, ffurfiwyd Parti Dawnsio Gwerin dan hyfforddiant Agnes Thomas. Parhaodd gyfnod o lwyddiant tan 1975,ond gyda newidiadau mewn Rheolau Cystadlu'r Urdd a phatrwn addysg uwchradd y Sir fe ddaeth "oes aur" yr Aelwyd i ben. Serch hynny, ehangwyd ar y gweithgareddau Cymreig gan sefydlu Adran yr Urdd i blant a phobl ifanc dan 18 oed.

Yn 1964, priododd David Gwyn a Pamela gyda Chôr yr Aelwyd yn canu yn y briodas. Wrth ddathlu eu Priodas Ddiamwnt eleni, cytunodd y ddau estyn gwahoddiad agored i aelodau'r "oes aur" ymuno â nhw mewn dathliad yng Nglwb Golff Langland. Roedd y trefniadau yng ngofal un o'r cyn aelodau, David Morgans, gyda'i chwaer Ann yn gofalu am yr arlwyo. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog a chyfle i gwrdd â hen ffrindiau, sgwrsio a chofio am ddigwyddiadau'r cyfnod. Diolchodd Michael Price, (Micky Price), ar ran y criw, gan ein hatgoffa am rai droeon trwstan ar deithiau'r Aelwyd. Cynigodd lwncdestun i David a Pam. Ymatebodd David Gwyn gan gyfeirio at y boddhad roedd ef a Pam yn teimlo wrth weld, clywed a rhannu atgofion gyda'r criw hapus o 60 oedd wedi ymgynnull. Pwysleisiodd ein dyled i'r Parchg. Trebor Lloyd Evans am ei weledigaeth wrth sefydlu'r Aelwyd a'i gefnogaeth ef i Fudiad yr Urdd. Mewn ail lwncdestun gofynnodd i'r gwesteion gofio am y sawl nad oeddent yn gallu fod yn bresennol, rhai ohonynt oherwydd afiechyd. Tynnodd sylw at ein tristwch wrth gofio am y rhai oedd wedi'n gadael.

Gwahoddwyd cyfraniadau at Gronfa Apêl Ardal Treforys i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir ym Mharc Margam yn 2025. Erbyn ysgrifennu'r adroddiad yma mae cyfraniadau wedi chwyddo i £1,200, gan gynnwys cyfraniadau a dymuniadau da oddi wrth gyn aelodau nad oeddynt yn gallu fod yn bresennol.



Llun: David, Siân a Wynford



Llun: Ieuan, Ian, Linda, Marilyn a Sarah

## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH
-DAVID GWYN JOHN

Canolfan y Tabernacl, Treforys ydy'r enw newydd ar Festri'r Tabernacl. Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r gwaith cychwyn o drawsnewid yr hen festri i ganolfan gymdeithasol ar gyfer yr eglwys a'r gymuned. Wedi hir aros mae'r gwaith wedi dod i ben. Cynhelir agoriad swyddogol ym mis Tachwedd ond dychwelodd y Gymdeithas i'r Tabernacl i gynnal, am y tro cyntaf erioed, ein Swper Cynhaeaf. Mae'r addasiadau yn cynnwys cegin newydd gyda chyfleusterau ar gyfer paratoi prydau bwyd. Felly, penderfynwyd cynnal y Swper eleni yn ein cartref nid mewn lleoliad arall. Mae Lisa, merch Sarah East, un o'r aelodau, yn brofiadol ym maes darparu bwydydd ac fe dderbyniodd hi'r cyfrifoldeb am yr arlwyo.

Cawsom bryd o fwyd ardderchog a blesiodd pawb, gan gynnwys ein gwestai am y noson, Siân Thomas, y gyflwynwraig ar Prynhawn Da. Fel merch o'r cymoedd, roedd Siân yn gartrefol iawn yn ein plith. Er iddi dreulio dyddiau cynnar ei bywyd yng Nghwm Cynon fe symudodd hi a'r teulu i Gwm Tawe gan dderbyn ei haddysg uwchradd yn Ysgol Ystalyfera cyn symud ymlaen i astudio am radd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Soniodd Siân am ei hoffter o lenyddiaeth Gymraeg, ond aeth ymlaen i siarad am ei diddordeb mewn Eifftoleg. Cododd ei diddordeb yn y pwnc yn ystod ei phlentyndod. Mae hi wedi teithio yn aml i'r Aifft er mwyn ymestyn ei hastudiaethau a rhannodd ei phrofiadau gyda ni mewn cyflwyniad grefftus a hynod ddiddorol. Estynnodd Gadeirydd y Gymdeithas, y Parchg. Eirian Wyn, ein diolchiadau i Siân am ei hanerchiad difyr. Diolchwyd hefyd i Lisa , ei mam Sarah ac i bob un oedd wedi gweithio i greu noson gofiadwy a llwyddiannus.

Cynhelir cyfarfod mis Hydref yng Nghanolfan y Tabernacl am 7.00.y.h. nos Iau Hyfref 17eg. Y gogyddes ac ymgynghorydd ar fwydydd a diodydd, Nerys Howel, yw'r gwestai, ac efallai fe gawn cwmni ei merch, Elinor Snowsill, a chwaraeodd rygbi dros dîm merched Cymru. Coginio yw maes arbennig Nerys ond rydym yn disgwyl clywed am ei thaith i Seland Newydd yn 2021 i gefnogi Elinor yn chwarae dros Ferched Cymru yng Nghwpan y Byd
.

## "Y SGWRS FAWR' - PENODAU NEWYDD

Ar Fedi'r 11eg, aeth criw o ddysgwyr Bl.9 Ysgol Gyfun Gŵyr i Amgueddfa'r Glannau er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau "Y Sgwrs Fawr" a drefnwyd gan Gyngor Abertawe. Nod y diwrnod oedd rhoi cyfle i'r bobl ifanc leisio'u barn am faterion sydd o bwys iddynt. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau hwylus lle edrychwyd ar yr hyn sy'n bwysig er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifanc yn ffynnu ac yn tyfu i fod yn oedolion cyfrifol sy'n gallu cyfrannu'n llawn i'n cymdeithas. Cafwyd sesiwn hefyd gan Amber Lewis o Senedd Ieuenctid Cymru, lle esboniwyd am rôl y Senedd a sut all pobl ifanc Cymru gael rhan weithredol yn y gwaith maent yn gwneud.



## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

## CADET YR ARGLWYDD FAER
-SALLY CORBETT, BLWYDDYN 11



Dros y gwyliau haf cefais i'r cyfle gwych i fynd ar daith ar un o gychod hyfforddiant y Sea Cadet Corps TS ROYALIST o Greenock, Yr Alban i Belfast, Gogledd Iwerddon. Yn ystod fy amser ar y cwch dringais i a chadetiaid eraill y prif fast i baratoi i hwylio, gan gynnwys hwylio yn y nos a chadw ein llygaid ar yr angor. Yn ystod hwylio'r môr roedd yna dolffiniaid yn nofio ar bwys blaen y cwch - roedd hyn yn brofiad arbennig! Ar ôl benni hwylio yn y diwrnodau aethom ni i grwydro o amgylch y trefi, dinasoedd a porthladdoedd lle fyddwn yn galw adref a darganfod mwy am y llefydd yma. Rydw i yn ddiolchgar iawn am y profiad cefais ar y llong!!
Hefyd, ar ddechrau mis medi cefais fy apwyntio fel un Gadetiaid yr Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe, Mae'n anrhydedd i mi gynrychioli fy llu a merched o fewn y cadetiaid. Mae'r rôl yn golygu dwi a'r cadetiaid eraill yn cynorthwyo'r Maer mewn seremoni sifil fel parêd Suly Cofio. Teimlais i falchder diddiwedd i dderbyn y penodiad hwn ar yr 2il o Fedi. Rydw i yn gyffrous i ddechrau a chyflawni fy nyletswydd hyd orau fy ngallu i gan gynnwys ddefnyddio fy Nghymraeg pryd bynnag gallaf i!!



## SESIWN YN Y BABELL LÊN

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG



Cafodd dau o ddisgyblion Ysgol Bryn Tawe'r fraint o gymryd rhan mewn sesiwn yn y Babell Lên yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gan fod Owain James o fl.12 a Tirion Clarke o fl.9 wedi ennill Gwobr Awdur Heddwch eleni yn Eisteddfod Llangollen, gwahoddwyd y ddau i ddarllen detholiad o'u gwaith fel rhan o sesiwn a drefnwyd ar y cyd gan PEN Cymru a Chymdeithas y Cymod. Teitl y sesiwn oedd 'Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw' a hefyd yn cymryd rhan oedd Mererid Hopwood, Rhun Dafydd, Menna Elfyn, Ifor ap Glyn a Casi Wyn.

## DIWRNOD HEDDWCH AC EWYLLYS DA

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

A hithau'n ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol (dydd Sadwrn Medi 21ain), ac yn Ddiwrnod Cofio Waldo Williams, Medi 30ain, mae criw o ddisgyblion Chweched Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe wedi paratoi fideo yn galw am heddwch. Dyma'r ddolen You tube: https://youtu.be/y18ycMa6eLg

## PRIF SWYDDOGION NEWYDD


-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED



Dyma brif swyddogion newydd Bryn Tawe – Ella Thomas a Lewis Moran yw ein prif swyddogion, ac Evie Barr, Angharad Cunliffe, Gethin Pritchard a Jorja Woods yw ein huwch swyddogion. Pob lwc ar y gwaith!

## TALENT TECSTILIAU

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED







Ar ddechrau mis Medi roedd noson agoriadol i'r arddangosfa Talent Tecstilau Abertawe ym mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant. Enillodd Courtney Braun o fl12 wobr am ei gwaith ar gyfer y cwrs TGAU Celf. Mae'r arddangosfa o waith y disgyblion ar gampws Dynefwr tan Hydref.

## CODI ARIAN I SEFYDLIAD JACOB CRANE

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED





Mae'n bosib i chi weld hanes Sefydliad Jacob Crane ar Heno a'r newyddion ym mis Medi. Roedd Jacob yn aelod annwyl, hoffus a phoblogaidd o deulu'r chweched dosbarth, a bu farw ym mis Mai eleni. Rydym wedi bod yn codi arian ar gyfer yr elusen a sefydlwyd yn ei enw gan y teulu, sef Sefydliad Jacob Crane. Ar Fedi'r 15fed roedd criw o ddisgyblion y chweched a staff wedi rhedeg ras 10K Abertawe ac ar Fedi'r 27ain cawson ni ddiwrnod i godi arian hefyd. Codwyd dros £1200 ar y 27ain, a gobeithiwn bydd y ffigwr hwn yn uwch eto wrth i'r arian gael ei gasglu yn dilyn y ras.

## SESIYNAU DEWCH I GANU

Ymunwch â'r cerddor Delyth Jenkins i ddysgu Cymraeg trwy ganu. Yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 1af Hydref, bydd sesiwn BOB dydd Mawrth am 11:30yb yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.




## GŴYL NAWR

Wrth ein boddau i gyhoeddi bod Gŵyl NAWR yn dychwelyd i Tŷ Tawe ar ddydd Sadwrn yr 2ail o Dachwedd! Tocynnau bargen cynnar ar werth nawr!

Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe




## CRICED YN GYMRAEG

Mae Criced Cymru a Menter Iaith Abertawe yn cydweithio i gynnal sesiynau hyfforddi criced trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 8 - 15 oed!

Sesiwn 1af nos Fawrth 1.10
5yh - 6yh
Canolfan Hamdden Penlan
Sganiwch y côd QR ar y poster i gofrestru!




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Medi/Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Hydref/Tachwedd erbyn Hydref 25ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG | Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru | Part Funded by Welsh Government

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

04.10 - SFF24: Geraint Løvgreen (Tŷ Tawe)
10.10 - Gwilym Bowen Rhys (Capel y Nant, Clydach)
17.10 - Das Koolies (The Bunkhouse)
19.10 - Angharad Jenkins + Patrick Rimes (Tŷ Tawe)
28.10 - Elis James (Tŷ Tawe) Llawn / Sold out
29.10 - Elis James (Tŷ Tawe) Llawn / Sold out
02.11 - Gŵyl NAWR (Tŷ Tawe)
06.11 - Rio 18 (The Bunkhouse)
29.11 - Steve Eaves a Rhai Pobl (Tŷ Tawe)
01.12 - Melys (The Bunkhouse)




















Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

GŴYL
# NAWR
FESTIVAL



**CODI DAN-DDAEAR**

**Y DYDD OLAF**

**FFRANCON**

**GWENIFER RAYMOND**

**MAGGIE NICOLS + ASH COOKE**

**MANAGED DECLINE**

**RADIO FREE PONTY**

**SWI (BYRFYFYRWYR DE CYMRU)**

**STEVE DAVIS**

**TEDDY HUNTER**

**VOTIVE MESS**

**WEMA (CYNGHRAIR CERDDORIAETH ARBROFOL CYMRU)**

**YEAH YOU**

## TŶ TAWE, ABERTAWE
## 02.11.2024
### 11:00-23:00, £15 ADV


TŶ CERDD Music Centre Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Cymru Greadigol Creative Wales

menter iaith abertawe